Cyfrifiad Prawf 2007

Gweithio Gyda'n Gilydd dros y Gymuned

Sut mae Awdurdodau Lleol, Grwpiau Cymunedol a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cael budd o weithio gyda'i gilydd

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn deall bod Awdurdodau Lleol yn gwybod mwy na ni am eu cymunedau eu hunain.

Yn ystod Cyfrifiad 2001, fe wnaethom ddysgu cymaint gwell y mae proses y Cyfrifiad yn gweithio pan fydd y cyrff sy'n adnabod ardal – yr Awdurdodau Lleol a Grwpiau Cymunedol – yn gweithio gyda'r SYG. Bydd partneriaeth gydag awdurdodau lleol yn ystod Cyfrifiad 2011 yn helpu'r SYG i gasglu'r wybodaeth fwyaf cywir a chyflawn am bawb. Bydd hyn, yn ei dro, yn rhoi'r ffeithiau angenrheidiol i'ch Awdurdod Lleol i gynllunio ar gyfer pobl leol a'u gwasanaethu.

Mae'r pum Awdurdod Lleol sy'n cymryd rhan ym Mhrawf y Cyfrifiad 2007 wedi penodi Rheolydd Cyswllt Cyfrifiad i weithio gydag SYG trwy gydol y Prawf. Fel tîm byddwn yn sicrhau ein bod yn:

- ychwanegu cyfeiriadau newydd at ein rhestr ac yn gwella cywirdeb y rhai sydd gennym yn barod
- defnyddio'r gweithdrefnau cyfrifo gorau
- yn cysylltu â'r bobl iawn yn ystod y prawf
- yn deall y gwahanol grwpiau sy'n byw mewn cymuned, beth sydd arnynt ei angen a sut i'w cyrraedd
- rhoi cyhoeddusrwydd i'r Prawf a
- chael digon o bobl i ddelio â'r Cyfrifiad ac ateb cwestiynau'r cyhoedd

Ar ôl 13 Mai bydd yr Awdurdodau Lleol a'r SYG yn adolygu beth weithiodd yn dda a'r hyn nad oedd yn llwyddiannus yn ystod y Prawf. Gan ddefnyddio ein canfyddiadau, byddwn yn gwella'r cynlluniau ar gyfer Cyfrifiad cenedlaethol 2011.

Cyrraedd at y rhai anoddaf eu cyrraedd: cyswllt cymunedol

Bydd y SYG hefyd yn gweithio gyda chyrff allweddol lleol eraill sy'n adnabod y gymuned yn dda. Mae pobl yn y gymuned leol a all fod ag anghenion arbennig ond sydd weithiau'n anodd cyrraedd atynt - er enghraifft pobl hŷn, pobl anabl, lleiafrifoedd ethnig, pobl gydag anawsterau iaith neu ddysgu a chymunedau o ffydd benodol. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod eu hanghenion a'u bod yn cael cyfle i gymryd rhan yn y Cyfrifiad.

Gyda'n gilydd rydym wedi sefydlu Rhaglen Gyswllt Gymunedol. Er mwyn cael effaith yn eich ardal bydd yn:

- edrych ar y ffordd y mae grwpiau cymunedol yn darparu gwybodaeth leol a fydd yn ddefnyddiol i'r rhaglen Cyfrifiad
- hysbysebu'r Cyfrifiad ac esbonio ei ddefnydd a'i werth
- darparu cymorth a chyfarwyddyd i grwpiau cymunedol lleol ac aelodau'r cyhoedd
- helpu i ddatblygu strategaethau iaith ac anabledd
- helpu i ddarparu deunyddiau a chyfleusterau cyfieithu a dehongli
- helpu i ddarparu ffynhonnell o staff maes a
- helpu i roi gwybodaeth a chyfarwyddyd i'r staff hynny

Ffôn
0845 603 2011

Ffôn testun (i bobl â nam ar eu clyw)
0845 604 2011

Y We
www.statistics.gov.uk/censustest

Ystadegau Gwladol

PUB FS 03T (W)

Taflen Wybodaeth Tri

Cyfrifiad Prawf 2007

Bydd Prawf y Cyfrifiad 2007 yn rhoi cyfle i'r SYG fesur pa mor dda yr ydym yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a chyrff cymunedol. O ganlyniad , gallwn gryfhau'r hyn sy'n ein cysylltu â'n nodau i gydweithio mor effeithiol ag sy'n bosibl yn ystod Cyfrifiad 2011.

Mae'r cyrff a'r sefydliadau y mae'r SYG wedi'u dynodi fel partneriaid posibl ar gyfer gweithio ar y Rhaglen Gyswllt Gymunedol yn cynnwys:

- Action for Irish Youth
- Age Concern
- Big Issue
- Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydeinig
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Carers UK
- Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
- Y Comisiwn Hawliau Anabledd
- Cymdeithas Genedlaethol Arabiaid Prydain
- Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Cyrff Gwirfoddol
- Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol
- Cymdeithas Ravidassiaidd Prydain
- Cymdeithas yr Arglwydd Raglawiaid
- Cymunedau yn Gyntaf (Cymru)
- Cyngor Addysg y Sipsiwn
- Cyngor ar Bopeth
- Cyngor Mwslemaidd Prydain/Cymru
- Cyngor y Ffoaduriaid
- Ffederasiwn Cenedlaethol y Deillion
- Ffederasiwn Cymdeithasau Gwyddelig
- Ffederasiwn Sikh Prydain
- Ffederasiwn y Pwyliaid ym Mhrydain Fawr
- Fforwm Hindŵ Prydain
- Y Ganolfan Ieithoedd Genedlaethol
- Help the Aged/Help the Aged Cymru
- Liberty
- Mencap
- Mind/Mind Cymru
- Mudiad Cymdeithasol a Diwylliannol y Pwyliaid
- NHS Direct
- RNIB
- RNID
- Rhwydwaith Rhyng-ffydd y DU
- SCOPE
- Sefydliad Anableddau Dysgu Prydain
- Sefydliad Ligali
- Shelter/Shelter Cymru
- Stonewall
- Yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol

Os oes gennych gwestiynau neu sylwadau am Brawf y Cyfrifiad 2007, cysylltwch â Llinell Gymorth y Cyfrifiad ar **0845 603 2011**

Mae Ffôntestun ar gael i bobl â nam ar eu clyw: **0845 604 2011**

Mae llyfrynnau Print Bras a Braille ar gael i helpu pobl â nam ar eu golwg i lenwi'r holiadur.

Ffôn
0845 603 2011

Ffôn testun (i bobl â nam ar eu clyw)
0845 604 2011

Y We
www.statistics.gov.uk/censustest

YSTADEGAU GWLADOL

PUB FS 03T (W)